



Cynllun Pwnc Gwaith Cymdeithasol

Mai 2018

CYMRÆG



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cyflwyniad a chyd-destun

Cyd-destun Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ail Gynllun Academaidd. Mae [‘Tuag at 2020 a thu hwnt’](#) yn gynllun strategol sy'n gosod egwyddorion, nodau a fframwaith gynllunio ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn adeiladu ar y Cynllun Academaidd cyntaf a gyhoeddwyd yn 2012 yn fuan wedi sefydlu'r Coleg.

Mae'r Cynllun Pwnc Gwaith Cymdeithasol yn gosod yr egwyddorion a'r nodau hynny ar waith ar lefel ddisgyblaethol.

Proses

Cam cyntaf y broses o lunio'r cynllun hwn oedd i sefydliadau ymateb i ffurflen cynllunio pwnc. Pwrpas y ffurflen oedd casglu gwybodaeth gyfredol oddi wrth y prifysgolion am lefel y ddarpariaeth, capasiti staffio a niferoedd myfyrwyr. Mae'r targedau yn y cynllun hwn yn seiliedig ar y wybodaeth honno ac yn gosod nodau a blaenoriaethau am y tair blynedd nesaf a thu hwnt. Mae'r cynllun pwnc wedi ei drafod mewn cyfarfod rhwng prifysgolion a Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn ystyrlon ac yn adlewyrchiad cywir o'r tirlun.

Egwyddorion a Themâu

Lle'r oedd y cynllun pwnc blaenorol yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg ar gynlluniau gradd anrhydedd, bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar y gwaith a gyflawnwyd yn y sefydliadau yn ystod cyfnod cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac yn canolbwyntio ar y nod o gynnig addysg uwch o'r radd flaenaf i'r myfyrwyr sy'n dewis astudio o leiaf cyfran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae profiad y myfyriwr yn greiddiol i'r egwyddor honno.

Strwythur y Cynllun

Mae'r Cynllun Pwnc Gwaith Cymdeithasol hwn yn gosod fframwaith ar gyfer y cyfnod 2017/18 hyd at 2022/23. Ceir yma ystyriaeth lawnach o broffil y gweithlu a'r sector ôl-16 yn ogystal ag anghenion y gweithle. Rhoddir mwy o ystyriaeth hefyd ar gyd-destun polisi a'r heriau sy'n benodol i'r maes Gwaith Cymdeithasol, e.e. yr angen i gyflogwyr ateb anghenion eu poblogaeth a'r angen i'r gweithlu adlewyrchu'r boblogaeth yn well.

Mae proses dyrannu grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dibynnu ar gategori'r pwnc yn genedlaethol o fewn y Cynllun Academaidd, blaenoriaethau strategol y prifysgolion unigol a natur y gefnogaeth sy'n parhau o du'r Coleg Cymraeg, e.e. drwy'r Cynllun Staffio. Mae cyfuniad o ffactorau yn effeithio ar ddyraniad grant pynciol a pha un a ydyw'r prifysgolion yn cwrdd â'r meini prawf a osodwyd gan y Cynllun Academaidd Cenedlaethol. Yn 2018, mae prifysgolion Bangor a Chaerdydd yn cyrraedd trothwyon y Cynllun Academaidd ac mae'r Brifysgol Agored yn anelu at gyrraedd y trothwyon hefyd.

Adolygir ystod y ddarpariaeth a'r lleoliadau astudio yn flynyddol yn unol â meini prawf y Cynllun Academaidd – sef bod o leiaf chwe myfyriwr ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, a bod o leiaf dau aelod o staff academaidd (cyfwerth amser llawn) yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth deugain credyd y flwyddyn, a phedwar aelod o staff academaidd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer darpariaeth gwerth wyth deg credyd y flwyddyn.

Cyd-destun Llywodraeth Cymru

Mae'r cynllun pwnc hwn yn bodoli o fewn cyd-destun gwleidyddol sydd wedi cyflwyno deddfau a strategaethau i ddatblygu'r sector gofal:

1) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae diffiniad y ddeddf o lesiant yn cynnwys 'sichrau hawliau a hawlogaethau'. I siaradwyr Cymraeg, bydd sichrau hawliau a hawlogaethau yn golygu gallu defnyddio eu hiaith eu hunain i gyfathrebu a chyfrannu at eu gofal fel partneriaid cyfartal.

2) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r ddeddf yn rhestru saith o nodau ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Mae un o'r nodau hyn yn anelu at sichrau 'Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

3) Fframwaith strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, 'Mwy na Geiriau'.

Un o egwyddorion allweddol Mwy na Geiriau yw darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'. Ystyr 'Y Cynnig Rhagweithiol' yw darparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i unigolyn orfod gofyn amdano. Mae'n golygu creu newid mewn diwylliant, gan gymryd y cyfrifoldeb am dderbyn gwasanaethau cyfrwng Cymraeg oddi ar yr unigolyn gan ei osod ar ddarparwyr y gwasanaethau. O fewn y maes gofal, mae'n hollbwysig bod pob unigolyn yn cael y cyfle i gyfleu ei deimladau a'i brofiadau mwyaf personol drwy gyfrwng ei famiaith. Dim ond wrth sichrau y rhoddir pob cyfle i'r unigolyn fynegi ei hun – a chael ei ddeall drwy gyfrwng yr iaith a ddewisa – y gellir trefnu'r gofal, y gefnogaeth a'r gwasanaeth priodol ar ei gyfer.

Cyd-destun Gofal Cymdeithasol Cymru

Gofal Cymdeithasol Cymru sydd yn pennu safonau ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol, gan wneud gweithwyr cymdeithasol yn atebol am eu gwaith. Maent hefyd yn datblygu'r gweithlu er mwyn i weithwyr cymdeithasol gael y wybodaeth a'r sgiliau i ddiogelu, grymuso a chefnogi pobl sydd angen gofal. Mae bod yn weithiwr cymdeithasol yn gofyn am wybodaeth eang a sgiliau arbennig ar gyfer gweithio gydag unigolion mwyaf bregus ein cymdeithas. Yn sgil hynny, mae angen hyfforddiant proffesiynol ar y rhai sy'n dymuno gweithio yn y maes.

Y radd gwaith cymdeithasol yw'r cymhwyster proffesiynol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol' wedi ei warchod. Dim ond unigolion sydd â chymhwyster gwaith cymdeithasol proffesiynol sydd yn medru ymarfer fel gweithwyr cymdeithasol.

Er mwyn cymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol yng Nghymru, mae'n rhaid cwblhau cwrs sydd wedi ei gymeradwyo gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r cwrs ei hun wedi ei seilio ar ddatganiadau meincnodau ar gyfer Gwaith Cymdeithasol (QAA 2016), Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol (2016) a'r Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol. Rhestr o ddatganiadau sy'n disgrifio'r safonau, yr ymddygiad a'r ymarfer proffesiynol sy'n ddisgwyliedig ymysg ymarferwyr a gyflogir yn y proffesiwn gofal cymdeithasol yng Nghymru yw'r Cod Ymarfer Proffesiynol.

Mae'r cwrs yn gyfuniad cyfartal o ddysgu academiaidd ac o ddysgu yn y gweithle. Mae'n bosibl astudio ar lefel israddedig neu ôl-raddedig. Mae'r prifysgolion yn cynnal eu rhaglenni mewn partneriaeth â chyflogwyr gwaith cymdeithasol.

Mae'r rhaglenni gradd yn cynnig cyfleoedd amrywiol i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhaglenni i gyd yn darparu asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg; mae'r gallu hwn i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio o raglen i raglen ac mae un rhaglen yn galluogi myfyrwyr i astudio'r cwrs i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ogystal â'r pum sefydliad sydd wedi eu nodi yn y cynllun pwnc hwn, mae tri darparwr pellach yn y maes sy'n cynnig rhaglenni gradd gwaith cymdeithasol – Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Coleg Pen-y-bont a Phrifysgol De Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghorol, anogir y tri darparwr hwn i gadarnhau a ydynt yn ymrwmo i ddarparu hyfforddiant yn y Gymraeg i ddarpar weithwyr cymdeithasol ai peidio.

Cyd-destun partneriaethau a'r gweithlu

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gyda phrifysgolion, gan gynnwys Y Brifysgol Agored, ynghyd ag awdurdodau lleol ar lefel leol a rhanbarthol, er mwyn cynllunio'r gweithlu. O ran Y Brifysgol Agored, mae Partneriaeth Rhaglen Cymru (PRhC) yn cynnwys partneriaid sy'n gyflogwyr, cynrychiolwyr pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, cynrychiolwyr y myfyrwyr a chynrychiolwyr y tiwtoriaid, yn ogystal â'r Brifysgol Agored ei hun. Mae aelodau PRhC yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu, cynllunio, dosbarthu, monitro ac adolygu'r radd ac yn dethol ac asesu myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn ôl gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae gweithio'n agos fel hyn gyda phartneriaid sy'n gyflogwyr yn sicrhau bod myfyrwyr sydd wedi cymhwyso mewn sefyllfa gref i wynebu heriau'r gweithle a'r proffesiwn.

Ymrwymiad pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau

Mae hefyd yn ofynnol gan Gofal Cymdeithasol Cymru, bod gan bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau lais cryf o ran rheolaeth a chyfeiriad y radd Gwaith Cymdeithasol, fel bod myfyrwyr wedi eu paratoi'n ddigonol i ddarparu cefnogaeth briodol i'r dinasyddion y byddant yn gweithio gyda nhw ar ôl cymhwyso. Yng Nghymru, mae aelodau o Grŵp Cynghori Defnyddwyr y Gwasanaeth/Cynhalwyr yn ymwneud â phob agwedd o'r rhaglen, gan gynnwys rheoli, dosbarthu, recriwtio a dethol, asesu ymarfer a sicrhau ansawdd.

Sefyllfa Gyfredol (2016/17) ¹			
Sefydliad Addysg Uwch	Darpariaeth	Staff	Myfyrwyr
Prifysgol Abertawe	Mae 40 credyd ar gael ym mhob blwyddyn.	1 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg ac yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Mae 13 o fyfyrwyr ar draws yr ysgol yn siarad Cymraeg. Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
Prifysgol Bangor	260 o gredydau ar gael dros y ddwy flynedd yn y Gymraeg.	Mae 4 aelod staff llawn amser yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.	Mae 40 o fyfyrwyr ar draws yr ysgol yn siarad Cymraeg. O leiaf 15 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
Y Brifysgol Agored	Anogir myfyrwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth astudio, ac mae Tiwtor Datblygu'r Gymraeg ar gael i'w helpu yn hyn o beth. Mae'r Cynllun Mentora yn sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg.	1 aelod o staff yn siarad yn cefnogi addysgu cyfrwng Cymraeg.	Mae 20 myfyriwr yn rhugl yn y Gymraeg. Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
<i>Prifysgol Caerdydd</i>	<i>Mae rhywfaint o ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar y cwrs MA. Mae hynny'n digwydd yn bennaf trwy leoliadau a rhywfaint o waith academaidd</i>	<i>1 aelod o staff llawn amser yn siarad Cymraeg.</i>	<i>Mae 10 o fyfyrwyr ar draws yr ysgol yn siarad Cymraeg. Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg</i>

¹ Data gan y sefydliadau

	<i>megis tiwtora a seminarau cyfrwng Cymraeg.</i>		
<i>Prifysgol Glyndŵr</i>	<i>Mae rhywfaint o ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar gwrs israddedig, yn bennaf trwy leoliadau a rhywfaint o waith academaidd.</i>	<i>1 aelod o staff yn siarad Cymraeg.</i>	<i>Mae 15 myfyriwr yn medru'r Gymraeg. Llai na 6 ym mhob blwyddyn yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.</i>

Datblygu'r maes: patrwm cenedlaethol	
Profiad Myfyrwyr	<p>Mae'r lleoliadau yn seiliedig ar y berthynas rhwng y cwrs academaidd a'r asiantaethau sy'n darparu'r gwaith a'r gofal cymdeithasol. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn mynnu bod myfyrwyr yn treulio 50% o'u cyrsiau ar leoliadau ymarfer dan asesiad. Disgwylir i fyfyrwyr feddu ar brofiad o weithio yn y maes gofal cymdeithasol, sy'n cefnogi eu cais am le ar gyrsiau gwaith cymdeithasol yng Nghymru.</p> <p>Mae myfyrwyr yn mwynhau profiadau mewn amrywiaeth o wahanol leoliadau, yn cynnwys swyddi gwaith cymdeithasol statudol o fewn adrannau gwaith cymdeithasol ysbytai, timau sy'n ymdrin â throseddwyd ifanc, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau i blant a theuluoedd. Ceir amrywiaeth o gyfleoedd hefyd mewn asiantaethau yn y sector gwirfoddol.</p>
Darlithwyr	<p>Mae prinder darlithwyr yn gyffredinol yn y maes Gwaith Cymdeithasol, her bellach yw recriwtio darlithwyr dwyieithog. Mae'n her i recriwtio unigolion sydd â'r profiad ymarferol perthnasol ac sydd â phrofiad hefyd o waith ymchwil. Mae angen datblygu a meithrin ymarferwyr addas sydd â hygredd i ddarlithio yn y pwnc.</p>
Cwricwlwm	<p>Mae'r 'Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch' (The Quality Assurance Agency for Higher Education-QAA) yn sicrhau bod myfyrwyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster yn y Deyrnas Unedig yn derbyn addysg uwch o safon. Ceir datganiadau meincnodi er mwyn sicrhau safonau ac ansawdd addysg uwch.</p> <p>Yn 2016, diweddarwyd meincnodau ar gyfer addysg ym maes Gwaith Cymdeithasol. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn adolygu gofynion cyrsiau Gwaith Cymdeithasol ar hyn o bryd felly mae'n debygol y bydd rhywfaint o newid yn y dyfodol agos.</p>
Canlyniadau Myfyrwyr	<p>Mae canlyniadau myfyrwyr yn gadarnhaol iawn. Mae hyfforddiant ym maes Gwaith Cymdeithasol yn arwain at swyddi yn y maes i gyfran uchel o raddedigion. Bu cynnydd yng ngweithgareddau</p>

	<p>cynllunio'r gweithlu yn genedlaethol, sy'n ceisio sicrhau bod swyddi ar gael i fyfyrwyr ar ddiwedd eu hastudiaethau.</p>
<p>Adnoddau</p>	<p>Dros y blynyddoedd diwethaf, datblygwyd adnoddau o dan gefnogaeth y Coleg Cymraeg, e.e.</p> <p>CAEA Ymwybyddiaeth Iaith Gwaith Cymdeithasol. Mae'r CAEA yn anelu at greu'r amodau i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol fedru rhoi eu hunain yn esgidiau'r defnyddiwr a theimlo a deall pam fod gwasanaeth yn Gymraeg yn ystyriaeth bwysig. Mae'r modiwl yn cynnwys 5 uned sy'n hoelio sylw ar: ddeall anghenion iaith, mynd dan groen y profiad dwyieithog, ystyried cyd-destun y Gymraeg – ei chyflwr cyfoes a pheth o'i hanes ac effaith hynny ar ddefnyddwyr gwasanaeth, dadansoddi'r berthynas rhwng iaith a grym, goblygiadau strategaeth 'Mwy na geiriau' a'r 'Cynnig rhagweithiol', dod yn barod i ymarfer a gweithredu'n unol â gofynion 'Mwy na geiriau'.</p> <p>Mae nifer o adnoddau perthnasol ar gyfer y proffesiwn i'w cael yn ddwyieithog ar wefannau Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae angen datblygu adnoddau pellach yn y maes ynghyd ag adnabod unigolion ac awduron yn y maes Gwaith Cymdeithasol a all gyhoeddi. Mae angen datblygu disgyblaeth o ysgrifennu am waith cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg a sefydlu traddodiad o gomisiynu ymchwil Cymraeg a Chymreig.</p>
<p>Cyflogadwyedd (gan gynnwys Galw gan Gyflogwyr)</p>	<p>Yn ôl Gyrfa Cymru,² amcangyfrifir y bydd cyflogaeth Gweithwyr Cymdeithasol yn cynyddu yn ystod y degawd nesaf. Bydd y cynnydd hwn yn cael ei yrru gan yr angen am ofal iechyd a gofal cymdeithasol, ond bydd yn amrywio yn ôl arbenigedd. Yn ôl ystadegau Gofal Cymdeithasol Cymru, ni lwyddwyd i lanw 8% o swyddi ar draws y gwasanaethau cymdeithasol yn 2016. Mae gweithgareddau cynllunio'r gweithlu yn sicrhau bod nifer y myfyrwyr sy'n cymhwyso i ymarfer yn adlewyrchu'r galw gan gyflogwyr. Mae hyn yn sicrhau bod graddfa cyflogadwyedd gweithwyr cymdeithasol yn uchel iawn.</p> <p>Yn ddi-os, mae'r angen am sgiliau Cymraeg mewn Gwaith Cymdeithasol yn bwysicach nag erioed. Mae Strategaeth Iaith newydd Llywodraeth Cymru yn allweddol ac yn gosod pwyslais penodol ar ddefnydd y Gymraeg mewn cyd-destunau cymunedol a chymdeithasol. Mae hyn wedi ei</p>

² www.careerswales.com/cy/eich-gyrfa/nodweddion/gyrfaoedd/

	<p>adlewyrchu yn fframwaith Llywodraeth Cymru, Mwy na Geiriau (2012) a fframwaith olynol Mwy na Geiriau (2016):</p> <p>“Mae’n bwysig cydnabod mai dim ond trwy gyfrwng y Gymraeg y gall llawer o bobl gyfathrebu eu hangen am ofal yn effeithiol” (Mwy na Geiriau, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2012).</p> <p>Un o egwyddorion allweddol y fframwaith yw’r Cynnig Rhagweithiol. Ystyr Cynnig Rhagweithiol yn syml yw darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano.</p> <p>Yn ogystal â hyn, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn sicrhau hawliau i siaradwyr Cymraeg sy’n golygu y dylent allu defnyddio eu hiaith eu hunain i gyfathrebu a chyfrannu at eu gofal fel partneriaid cyfartal.</p> <p>Yn ychwanegol at hynny, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gweithio tuag at sicrhau Cymru sydd â diwylliant bywiog lle y mae’r Gymraeg yn ffynnu.</p> <p>Mae Strategaeth y Gymraeg (2017) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn gweithio tuag at greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae hyn yn debygol o gynyddu’r galw am wasanaethau dwyieithog.</p> <p>Mae’r safonau iaith sydd wedi eu gosod ar awdurdodau lleol Cymru gan Lywodraeth Cymru (byrddau iechyd i ddilyn) wedi cynyddu’r galw am ddarpariaeth iaith Gymraeg sy’n golygu y gall unigolion ddisgwyl derbyn gwasanaethau cyfrwng Cymraeg heb orfod gofyn amdanynt. I ddarpar weithwyr cymdeithasol felly, mae astudio Gwaith Cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg yn fanteisiol wrth baratoi tuag at weithio mewn gweithlu dwyieithog.</p>
<p>Cynaliadwyedd (gan gynnwys Dilyniant)</p>	<p>Disgwylir y bydd newid yn natur y gweithlu yn dod yn fwy amlwg dros y blynyddoedd nesaf. Mae’r myfyrwyr sydd ar gyrsiau gradd Gwaith Cymdeithasol yn dueddol o ddilyn llwybrau amrywiol er mwyn astudio ar lefel gradd. Mae nifer yn dewis dilyn y cwrs wedi cyfnod yn y gweithle, ac eraill wedi cyfnod mewn sefydliadau Addysg Bellach ac ysgolion.</p>

	<p>Mae lle i edrych ar ehangu mynediad ar gyfer cyrsiau israddedig a meistr yn y maes hwn er mwyn sicrhau bod y gweithlu'n adlewyrchu'r boblogaeth yn well. Mae angen mwy o amrywiaeth o fyfyrwyr ac edrych ar ffyrdd o sicrhau hynny.</p> <p>Mae angen edrych yn ogystal ar sut y mae modd ysgogi ymarferwyr sydd wedi gadael y proffesiwn am gyfnod er mwyn dychwelyd i'r gweithle. Mae angen codi ymwybyddiaeth ymysg cyn-ymarferwyr fod hynny'n bosibl a'u cefnogi yn hynny o beth.</p> <p>Rhagwelir y bydd angen ymgynghori ymhellach â cholegau Addysg Bellach er mwyn sefydlu galw a dilyniant, a hefyd i sefydlu sut mae hyrwyddo a marchnata'r ddarpariaeth Gymraeg ymhellach.</p>
--	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Blaenoriaethau cynllunio cenedlaethol			
Nod gweithredu	Targedau blwyddyn (2017/18)	Targedau 3 blynedd (2019/20)	Targedau 5 mlynedd (2021/22)
1. Darpariaeth	Cynnig ystod o ddarpariaeth ddwyieithog gan gynnwys o leiaf 80 credyd yn y Gymraeg mewn un brifysgol, ac o leiaf 40 credyd yn y Gymraeg mewn un prifysgol.	Cynnig ystod o ddarpariaeth ddwyieithog gan gynnwys o leiaf 80 credyd yn y Gymraeg mewn un brifysgol, ac o leiaf 40 credyd yn y Gymraeg mewn un prifysgol.	Cynnig ystod o ddarpariaeth ddwyieithog gan gynnwys o leiaf 80 credyd yn y Gymraeg mewn un brifysgol, ac o leiaf 40 credyd yn y Gymraeg mewn un prifysgol.
2. Cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd	90 o fyfyrwyr	130 o fyfyrwyr	160 o fyfyrwyr
3. Dilyniant a chyd-weithio gyda'r sector addysg bellach	Bydd angen ymgynghori pellach gyda cholegau addysg bellach er mwyn sefydlu galw a dilyniant, ac er mwyn trafod sut mae hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg ymhellach.	Cynnal digwyddiadau ac ymweliadau i hyrwyddo Gwaith Cymdeithasol fel gyrfa ac i godi ymwybyddiaeth myfyrwyr bod y Gymraeg yn sgil allweddol o fewn y proffesiwn.	Parhau i gryfhau'r berthynas hefo myfyrwyr a threfnu cyfleoedd iddynt flasgu lleoliadau amrywiol o fewn y proffesiwn.
4. Darlithwyr	Datblygu a meithrin ymarferwyr addas sydd ag hygrededd i ddarlithio yn y pwnc.	Codi ymwybyddiaeth ymarferwyr o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddarlithio trwy gyfrwng y Gymraeg a manteision hynny.	Meithrin cymdeithas o ddarlithwyr cyfrwng Gymraeg all gefnogi ei gilydd.

5. Adnoddau	Adnabod adnoddau fydd yn cefnogi myfyrwyr ac ymarferwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.	Datblygu 'Terminiadur Gwaith Cymdeithasol' er mwyn sicrhau bod geirfa a thermau Cymraeg yn cael eu dysgu a'u harddel ymysg ymarferwyr.	Datblygu adnodd i gefnogi myfyrwyr sy'n ddi-hyder i ddefnyddio eu Cymraeg.
-------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	----------------------------------------------------------------------------

Datblygu'r maes: targedau sefydliadol				
Sefydliad	Nod gweithredu	Targedau blwyddyn (2017/18)	Targedau 3 mlynedd (2019/20)	Targedau 5 mlynedd (2021/22)
Prifysgol Bangor	Darpariaeth	Parhau i ddarparu 120 credyd ym mhob blwyddyn o'r cwrs MA.	Parhau i ddarparu 120 credyd ym mhob blwyddyn o'r cwrs MA.	Parhau i ddarparu 120 credyd ym mhob blwyddyn o'r cwrs MA.
	Myfyrwyr	O leiaf 20 ymhob blwyddyn. Mae nifer y myfyrwyr sy'n cael eu derbyn yn dibynnu ar ddealltwriaeth rhwng gwahanol bartneriaethau.	O leiaf 20 ymhob blwyddyn. Mae nifer y myfyrwyr sy'n cael eu derbyn yn dibynnu ar ddealltwriaeth rhwng gwahanol bartneriaethau.	O leiaf 20 ymhob blwyddyn. Mae nifer y myfyrwyr sy'n cael eu derbyn yn dibynnu ar ddealltwriaeth rhwng gwahanol bartneriaethau.
	Profiad Myfyrwyr	Parhau i gynnig lleoliadau mewn partneriaeth â chyflogwyr a darparwyr gwaith a gofal cymdeithasol.	Parhau i gynnig lleoliadau mewn partneriaeth â chyflogwyr a darparwyr gwaith a gofal cymdeithasol.	Parhau i gynnig lleoliadau mewn partneriaeth â chyflogwyr a darparwyr gwaith a gofal cymdeithasol.
	Staff	O leiaf 4 aelod staff CALI	O leiaf 4 aelod staff CALI	O leiaf 4 aelod staff CALI
Prifysgol Abertawe	Darpariaeth	O leiaf 40 credyd ym mhob blwyddyn Parhau i gyflwyno'r cyd-destun Cymreig i holl	O leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn Parhau i gyflwyno'r cyd-destun Cymreig i holl	O leiaf 80 credyd ym mhob blwyddyn Parhau i gyflwyno'r cyd-destun Cymreig i holl

		fyfyrwyr y graddau BSc ac MSc a chyflwyno'r iaith Gymraeg iddynt o fewn y dosbarth trwy ddysgu dwyieithog.	fyfyrwyr y graddau BSc ac MSc a chyflwyno'r iaith Gymraeg iddynt o fewn y dosbarth trwy ddysgu dwyieithog.	fyfyrwyr y graddau BSc ac MSc a chyflwyno'r iaith Gymraeg iddynt o fewn y dosbarth trwy ddysgu dwyieithog.
	Myfyrwyr	O leiaf 4 myfyriwr ym mhob blwyddyn	O leiaf 6 myfyriwr ym mhob blwyddyn	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn
	Profiad Myfyrwyr	Parhau i gynnig lleoliadau yn seiliedig ar y berthynas rhwng y cwrs academaidd a'r asiantaethau sy'n darparu'r gofal cymdeithasol.	Parhau i gynnig lleoliadau yn seiliedig ar y berthynas rhwng y cwrs academaidd a'r asiantaethau sy'n darparu'r gofal cymdeithasol.	Parhau i gynnig lleoliadau yn seiliedig ar y berthynas rhwng y cwrs academaidd a'r asiantaethau sy'n darparu'r gofal cymdeithasol.
	Staff	O leiaf 1 aelod staff CALI Parhau i ddysgu'r Gymraeg i'r rhelyw o staff yr adran ac annog eu defnydd o'r iaith mewn cyd-destunau addysgol.	O leiaf 2 aelod staff CALI Parhau i ddysgu'r Gymraeg i'r rhelyw o staff yr adran ac annog eu defnydd o'r iaith mewn cyd-destunau addysgol.	O leiaf 2 aelod staff CALI Parhau i ddysgu'r Gymraeg i'r rhelyw o staff yr adran ac annog eu defnydd o'r iaith mewn cyd-destunau addysgol.
Y Brifysgol Agored	Darpariaeth	Gweithio tuag at 40 credyd ym mhob blwyddyn	Gweithio tuag at 80 credyd ym mhob blwyddyn	Gweithio tuag at 80 credyd ym mhob blwyddyn
	Myfyrwyr	O leiaf 4 myfyriwr ym mhob blwyddyn	O leiaf 8 myfyriwr ym mhob blwyddyn	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn

	Profiad Myfyrwyr	Parhau i gynnig lleoliadau yn seiliedig ar y berthynas rhwng y cwrs academaidd a'r asiantaethau sy'n darparu'r gofal cymdeithasol.	Parhau i gynnig lleoliadau yn seiliedig ar y berthynas rhwng y cwrs academaidd a'r asiantaethau sy'n darparu'r gofal cymdeithasol.	O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn Parhau i gynnig lleoliadau yn seiliedig ar y berthynas rhwng y cwrs academaidd a'r asiantaethau sy'n darparu'r gofal cymdeithasol.
	Staff	O leiaf 1 aelod staff CALI	O leiaf 2 aelod staff CALI	O leiaf 2 aelod staff CALI
Prifysgol Caerdydd	<i>Darpariaeth</i>	<i>Gweithio tuag at 40 credyd ym mhob blwyddyn</i>	<i>Gweithio tuag at 80 credyd ym mhob blwyddyn</i>	<i>Gweithio tuag at 80 credyd ym mhob blwyddyn</i>
	<i>Myfyrwyr</i>	<i>O leiaf 6 myfyriwr ym mhob blwyddyn</i>	<i>O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn</i>	<i>O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn</i>
	<i>Profiad Myfyrwyr</i>	<i>Parhau i gynnig lleoliadau yn seiliedig ar y berthynas rhwng y cwrs academaidd a'r asiantaethau sy'n darparu'r gofal cymdeithasol.</i>	<i>Parhau i gynnig lleoliadau yn seiliedig ar y berthynas rhwng y cwrs academaidd a'r asiantaethau sy'n darparu'r gofal cymdeithasol.</i>	<i>Parhau i gynnig lleoliadau yn seiliedig ar y berthynas rhwng y cwrs academaidd a'r asiantaethau sy'n darparu'r gofal cymdeithasol.</i>
	<i>Staff</i>	<i>O leiaf 1 aelod staff CALI</i>	<i>O leiaf 2 aelod staff CALI</i>	<i>O leiaf 2 aelod staff CALI</i>
Prifysgol Glyndŵr	<i>Darpariaeth</i>	<i>Gweithio tuag at 40 credyd ym mhob blwyddyn</i>	<i>Gweithio tuag at 80 credyd ym mhob blwyddyn</i>	<i>Gweithio tuag at 80 credyd ym mhob blwyddyn</i>

	<i>Myfyrwyr</i>	<i>O leiaf 6 myfyriwr ym mhob blwyddyn</i>	<i>O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn</i>	<i>O leiaf 10 myfyriwr ym mhob blwyddyn</i>
	<i>Profiad Myfyrwyr</i>	<i>Parhau i gynnig lleoliadau yn seiliedig ar y berthynas rhwng y cwrs academaidd a'r asiantaethau sy'n darparu'r gofal cymdeithasol.</i>	<i>Parhau i gynnig lleoliadau yn seiliedig ar y berthynas rhwng y cwrs academaidd a'r asiantaethau sy'n darparu'r gofal cymdeithasol.</i>	<i>Parhau i gynnig lleoliadau yn seiliedig ar y berthynas rhwng y cwrs academaidd a'r asiantaethau sy'n darparu'r gofal cymdeithasol.</i>
	<i>Staff</i>	<i>O leiaf 1 aelod staff CALI</i>	<i>O leiaf 2 aelod staff CALI</i>	<i>O leiaf 2 aelod staff CALI</i>